PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

Dydd Gwener, 28 Hydref 2022

YN BRESENNOL : Y Athro Ian Roffe (Aelod Annibynnol)(Cadeirydd)

Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:
K. Howell, K. Davies a D. Jones;

Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:
E. Evans, K. Evans a W. Thomas;

Aelodau o Gyngor Sir Benfro:
J. Grimes a S. Hancock;

Aelodau o Gyngor Sir Powys:
L. Rijnenberg, L. George a W. Powell;

Aelod Annibynnol:
Mrs. H.M. Thomas;

Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:
Mr. D. Llywelyn – Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
Mrs C. Morgans - Pennaeth y Staff;
Ms. B. Peatling - Prif Swyddog Cyllid;

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
K. Evans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Cynorthwyol;
S. Rees, Prif Gyfieithydd;

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 12.24 yp

1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y PANEL

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL :-

1.1 penodi'r Athro Ian Roffe yn Gadeirydd y Panel tan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel yn 2023;
1.2 penodi'r Cynghorydd Keith Evans yn Is-Gadeirydd y Panel tan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Panel yn 2023.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Diolchodd y Cynghorydd Keith Evans i gyn-gynghorwyr a oedd wedi gwasanaethu ar y panel am eu hymroddiad.

3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Aelod o'r Pwyllgor	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd S. Hancock	6 – Adroddiad Blynyddol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu	Mae aelod o'r teulu'n gweithio fel swyddog heddlu. Mae'n aelod o Fainc Sir Benfro.
Y Cynghorydd S. Hancock	7 – Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol	Mae aelod o'r teulu'n gweithio fel swyddog heddlu. Mae'n aelod o Fainc Sir Benfro.
Y Cynghorydd S. Hancock	8 – Penderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu	Mae aelod o'r teulu'n gweithio fel swyddog heddlu. Mae'n aelod o Fainc Sir Benfro.
Y Cynghorydd S. Hancock	9 – Protocol Plismona – Adroddiad Perfformiad	Mae aelod o'r teulu'n gweithio fel swyddog heddlu. Mae'n aelod o Fainc Sir Benfro.

[Sylwer: Ceir eithriad yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei Awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 IONAWR 2022

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2022 gan eu bod yn gywir.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

O ran eitem 5 - Praesept yr Heddlu, dywedodd y Comisiynydd wrth y panel y byddai hyn yn cael ei drafod yn y seminar ar brynhawn dydd Gwener, 28 Hydref, 2022.

6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

Roedd y Panel yn croesawu'r adroddiad hawdd ei ddefnyddio ond codwyd y materion canlynol:

- ❖ Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Comisiynydd yn fanylach y cynnydd sy'n cael ei wneud i helpu unigolion sy'n teimlo'n ynysig mewn cymunedau gwledig;

- ❖ Dywedodd y Comisiynydd wrth y grŵp sut mae'r llu'n defnyddio gwybodaeth er mwyn dal troseddwyr sy'n cyflawni troseddau sy'n ymwneud â Llinellau Cyffuriau;
- ❖ Cytunodd y Comisiynydd i ymchwilio i'r posibilrwydd o weithio ar y cyd â galwadau 111 opsiwn 2,
- ❖ Awgrymwyd bod yr aelodau'n cydweithio â Swyddogion Plismona Bro yn eu cymunedau, yn ystod yr argyfwng costau byw.

Croesawodd y Comisiynydd sylwadau'r Panel a dywedodd ei fod wedi nodi'r awgrymiadau a wnaed.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Comisiynydd estyn diolch a gwerthfawrogiad y Panel i'w holl staff a staff yr heddlu am y gwaith yr oeddent wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad blynyddol.

7. TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL (VAWDASV)

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i adroddiad mewn perthynas â nifer o achosion yr oedd llawer o sylw wedi cael ei roi iddynt yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod a oedd wedi digwydd y tu allan i ardal y llu. Mae'r adroddiad yn nodi dull y mae'r Comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys yn ei ddefnyddio wrth ymgymryd â'r mater pwysig hwn.

Mae Cynllun yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021-2025 yn cynnwys pwyslais ar fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) fel mater sy'n peryglu iechyd y cyhoedd ynghyd â chefnogi dioddefwyr, mynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflawni trais a sicrhau dull atal ac ymyrraeth gynnar gan amlasiantaethau.

Trwy weithio gyda phartneriaid, mae'r Comisiynydd yn gallu gyrru gwelliannau yn eu blaenau ac mae ei oruchwyliaeth ar y gwaith o fewn y llu wedi helpu i sicrhau ffocws parhaus ar sicrhau gwell canlyniadau i ddioddefwyr.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

8. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y Comisiynydd rhwng 6 Ionawr 2022 a 12 Hydref 2022. Dywedodd y Comisiynydd fod yr adroddiad yn cynnwys dau benderfyniad nad oeddent wedi cael eu cynnwys mewn adroddiad blaenorol.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y prosiect Braenaru i Fenywod, dywedodd y Comisiynydd na fyddai'n dilyn dull gweithredu Cymru gyfan. Bydd gan y prosiect ei fanyleb leol ei hun.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

[SYLWER: Roedd y Cynghorydd S. Hancock wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Derbyniodd y Panel adroddiad yn ymdrin â Chwarter 2, 2022/23 (Gorffennaf-Medi), ynghylch perfformiad y Comisiynydd yn erbyn y pwerau a'r dyletswyddau a nodir yn y Protocol Plismona.

Mewn ymateb i ymholiad o ran Adnoddau Dynol ynghylch recriwtio'r gweithlu, dywedodd y Comisiynydd eu bod yn gweithio'n hyblyg a bod ganddynt ddull gweithio ystwyth a bod modd gweithio gartref.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

_____	_____
CADEIRYDD	**DYDDIAD**